# Proffil Rôl
# y Prif Weithredwr



Ambiwlans Awyr Cymru, a lansiwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001, yw gwasanaeth ambiwlans awyr swyddogol Cymru. Rydym yn darparu gwasanaeth awyr i roi cymorth i bobl sy'n sâl neu wedi'u hanafu, ble bynnag y byddant yng Nghymru, a phryd bynnag y bydd ein hangen arnynt.

Ni yw'r unig elusen ambiwlans awyr a leolir yng Nghymru, sy'n gwasanaethu Cymru yn unig, ac rydym yn dibynnu'n llwyr ar roddion i gadw ein hofrenyddion yn yr awyr.

Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn gwasanaethu Cymru gyfan bob dydd, o gefn gwlad gwledig, i drefi a dinasoedd prysur, ar hyd arfordir Cymru ac ar draws cadwyni mynyddoedd mawr. Ers y dechrau, rydym wedi ymateb i fwy na 35,000 o alwadau.

Rydym wedi ein gwreiddio yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a chawn ein hysgogi gan ein gweledigaeth o ddarparu gwasanaeth ambiwlans awyr 24 awr y dydd, gan ymdrechu'n ddi-baid i sicrhau gwasanaeth rhagorol i bawb yng Nghymru.

## Ein Gwerthoedd

Mae ein dull gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd yn llywio popeth a wnawn, ein hymddygiadau, ein penderfyniadau, a'n diwylliant. Mae ein gwerthoedd fel a ganlyn:

### Uniondeb

Bod yn sefydliad sy'n agored ac yn dryloyw, ac sy'n mynd ati'n weithredol i groesawu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dangos gonestrwydd a thegwch ym mhob cam rydym yn ei gymryd.

### Gwerthfawrogi Pobl

Trin pawb ag urddas a pharch, gwerthfawrogi pob cyfraniad a helpu ein gilydd i wella drwy waith tîm effeithiol.

### Arloesi

Bod yn sefydliad creadigol, blaengar sy'n agored i syniadau newydd, yn bodloni heriau ac yn croesawu newidiadau. Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn, a gwella'n barhaus.

### Atebolrwydd

Cymryd cyfrifoldeb dros ein perfformiad ym mhob un o'n penderfyniadau a'n gweithredoedd. Sicrhau, fel elusen annibynnol, fod pob agwedd yn canolbwyntio ar y claf.

## Ein Cenhadaeth

**Rhoi cymorth i bobl sy'n sâl neu wedi'u hanafu, a diogelu bywydau, drwy ddarparu gwasanaeth meddygol brys ar hofrennydd/gwasanaeth ambiwlans awyr ledled Cymru.**

## Ein Gweledigaeth

**Darparu gwasanaeth ambiwlans awyr 24 awr y dydd ac ymdrechu'n ddi-baid i sicrhau gwasanaeth ambiwlans awyr rhagorol i bawb yng Nghymru.**

# Y Rôl

Er mwyn parhau â'n cyflawniadau hyd yn hyn, rydym yn awyddus i benodi **Prif Weithredwr ysbrydoledig** i arwain yr Elusen ar ei thaith tuag at welliant parhaus, a all arwain amrywiaeth eang o welliannau i'n gwasanaethau a darparu newidiadau mesuradwy i'n diwylliant.

Gan weithio gyda'r Cadeirydd a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ein rhanddeiliaid a'n gweithlu, byddwch yn cael y cyfle i gael effaith gadarnhaol yn y rôl arwain gyffrous hon. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar ddatblygu ein gweithlu, cyflawni uchelgeisiau strategol yr Elusen, sicrhau y caiff y strategaeth ei hymgorffori yn y diwylliant, adeiladu ar ein llwyddiannau, a sicrhau bod yr Elusen yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol a chytundebol ac yn sicrhau canlyniadau effeithiol i bobl Cymru.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am weinyddu'r Elusen yn gyffredinol, meithrin cydberthnasau ystyrlon a dylanwadol â rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol allweddol, a gweithredu fel llefarydd ar lwyfannau'r cyfryngau ac mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a phroffesiynol.  Bydd eich gallu i ddarparu arweinyddiaeth gadarn a sicrhau canlyniadau yn rhan annatod o'r rôl.

Byddwch yn gyfathrebwr rhagorol ac yn llysgennad, bydd gennych hygrededd a dylanwad â rhanddeiliaid a phartneriaid, a byddwch yn frwd o blaid hyrwyddo Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd yr Elusen.

# Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Bydd y cyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol, ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt:**

## Cyfeiriad Strategol

- Cefnogi'r Bwrdd Ymddiriedolwyr wrth adolygu ei gyfeiriad strategol yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt.
- Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol i'r Elusen, gan gynnwys arweinyddiaeth ar ddatblygu, ehangu a chynnal amcanion hirdymor a byrdymor.
- Bod yn ymwybodol bob amser o risgiau a newidiadau i'r amgylchedd allanol sy'n effeithio ar yr Elusen.
- Cyflawni cynlluniau busnes yr Elusen.
- Hyrwyddo'r Elusen ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- Mabwysiadu dull lefel uchel a chydgysylltiedig tuag at negodi cyllid er mwyn sicrhau bod yr Elusen yn parhau'n gynaliadwy ac yn gallu ehangu.
- Cytuno â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ar ddangosyddion perfformiad allweddol a safonau ar gyfer y sefydliad ac unigolion, a fydd yn cefnogi'r gwaith o wireddu gweledigaeth yr Elusen.
- Meithrin diwylliant o berfformiad uchel yn yr Elusen, ac ysbrydoli arweinyddiaeth ac atebolrwydd.
- Gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Tîm Uwch-reolwyr i oruchwylio'r gwaith o reoli'r strwythur llywodraethu.
- Darparu arweinyddiaeth a chymhelliant, gan sicrhau bod gweithlu ymroddedig, uchelgeisiol gan yr Elusen a fydd yn cydweithio i gyflawni ei gweledigaeth.

## Llywodraethu

- Cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a mynychu cyfarfodydd ymddiriedolwyr a chyfarfodydd is-bwyllgorau.
- Darparu gwybodaeth gynhwysfawr i gefnogi'r Bwrdd Ymddiriedolwyr wrth gyflawni ei rôl llywodraethu a gwneud penderfyniadau.
- Cydgysylltu'r gwaith o lunio adroddiad blynyddol.
- Sicrhau bod yr Elusen yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol, statudol a rheoliadol ac yn gweithredu yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Elusennau a'r Comisiwn Hapchwarae bob amser.
- Sicrhau bod yr Elusen yn llunio, darparu a monitro ei chynlluniau busnes blynyddol.
- Sicrhau bod y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Elusen drwy lunio adroddiadau a gwybodaeth ariannol a thrwy fynychu cyfarfodydd yn ôl y gofyn.
- Rheoli'r cofrestrau o risgiau strategol a gweithredol.

## Cyllid a Chynhyrchu Incwm

- Gweithio gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i gytuno ar strategaeth cyllido hirdymor i sicrhau'r incwm uchaf posibl ar gyfer yr Elusen o bob ffynhonnell, er mwyn datblygu a chynnal y gwasanaeth.
- Cydweithio â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i sicrhau hyfywedd ac atebolrwydd ariannol drwy wybodaeth ariannol gywir a goruchwylio priodol.
- Pennu a monitro dangosyddion allweddol ar gyfer iechyd ariannol yr Elusen.
- Gyrru ffrydiau refeniw ac achub ar gyfleoedd ac ar yr un pryd, sicrhau y darperir gwasanaethau rhagorol.
- Negodi cyllid ar gyfer yr Elusen ag asiantaethau statudol a gwneud ceisiadau i Ymddiriedolaethau a ffynonellau cyllid eraill fel y bo'n briodol.
- Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Cyllid i lunio cyllideb flynyddol a dadansoddiad o lif arian ar gyfer yr Elusen.
- Sicrhau bod yr Elusen yn cydymffurfio â gofynion a rheoliadau'r Comisiwn Elusennau a'r Comisiwn Hapchwarae a gofynion a rheoliadau Ariannol a chyfreithiol eraill.
- Cyflawni strategaeth incwm, a fydd yn arwain at adnoddau ariannol cadarn er mwyn ysgogi gweledigaeth yr Elusen.



## Cydberthnasau

- Meithrin cydberthynas waith effeithiol â Chadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Gweithredu fel llefarydd a phrif gennad ar gyfer yr Elusen, gan gynnal a datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd.
- Meithrin cydberthnasau cryf â rhanddeiliaid yr Elusen, y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys, GIG Cymru, a Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Sicrhau y caiff yr Elusen a'i gweithgareddau eu hyrwyddo'n gywir ac yn rhagweithiol yn y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Ymdrin ag ymholiadau'r cyfryngau ar ran yr Elusen pan fydd angen, neu ddirprwyo fel y bo'n briodol.
- Meithrin cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid, partneriaid a chymdeithasau, sefydliadau ac unigolion perthnasol eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

## Arweinyddiaeth

- Sicrhau y caiff amcanion sefydliadol eu trawsnewid yn gynlluniau gwaith unigol ag amcanion clir a mesuradwy.
- Cefnogi, monitro ac adolygu gwaith yr Uwch-dîm Rheoli a'r Cynorthwyydd Personol drwy gynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd ac asesiadau blynyddol.
- Adeiladu a chynnal tîm effeithiol, sy'n perfformio'n dda.
- Dangos ymrwymiad i gydraddoldeb o ran cyfleoedd ym mhob agwedd ar waith yr Elusen.
- Sicrhau y caiff cyfrinachedd priodol ei barchu ym mhob mater sy'n ymwneud â pholisïau cyfrinachedd GIG Cymru.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Eraill

- Hyrwyddo a chynnal Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd yr Elusen ym mhob agwedd ar waith.
- Cyfrannu at adroddiadau gwerthuso adrannol ar berfformiad.
- Bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau sy'n ymwneud â'r diwydiant a rhannu arferion gorau â chydweithwyr.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu fynd i sesiynau hyfforddiant yn ôl y gofyn.
- Dilyn ein polisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, nodi peryglon a chynnal asesiadau risg priodol yn ôl y gofyn.
- Bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol a'u deall – yn benodol mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Rheoliadau'r Comisiwn Elusennau a Chyfraith Elusennol.
- Meithrin cydberthnasau gwaith da â phob un o gyflogeion, gwirfoddolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yr Elusen.
- Cynrychioli'r Elusen yn dda a sicrhau cydberthnasau cadarnhaol â chwsmeriaid a chymunedau lleol.
- Cadw cyfrinachedd ym mhob maes gwaith.
- Sicrhau nad yw eich ymddygiad, y tu fewn i'r Elusen a thu allan ohoni, yn gwrthdaro â disgwyliadau sefydliadol.
- Mynd ati i gefnogi a hyrwyddo'r Elusen a'i holl bolisïau, prosesau a gweithdrefnau.

# Manyleb y Person

## Profiad, Sgiliau ac Ymddygiad Hanfodol

- Dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt.
- Profiad o reoli ariannol cadarn a llywodraethu corfforaethol.
- Profiad o sefydliad sy'n perfformio'n dda â diwylliant arwain cadarn sy'n canolbwyntio ar rinweddau galluogi a grymuso pobl.
- Rheoli cydberthnasau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn effeithiol.
- Profiad o ddatrys problemau ar lefel uchel.
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno cryf.
- Gallu amlwg i wireddu gweledigaeth yn strategaeth effeithiol.
- Ysgogi eich hun i ddechrau ar waith, gyda'r cymhelliant, ymrwymiad, brwdfrydedd ac ysgogiad i ddiffinio nodau clir ac ysbrydoli pobl i'w cyflawni.
- Bod yn arweinydd â sgiliau rhyngbersonol a gwaith tîm rhagorol, gyda gallu amlwg i gymell a thanio brwdfrydedd.

## Profiad, Sgiliau ac Ymddygiad Dymunol

- Tystiolaeth o brofiad o weithredu ar lefel Bwrdd a hanes amlwg o arwain sefydliad.
- Profiad o fod yn atebol i fyrddau gwirfoddol a gweithio gyda nhw.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Gallu i gyfathrebu'n effeithiol â phob un o'n partneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y cyfryngau.

Efallai y bydd angen i chi ymgymryd â thasgau, dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol o fewn cwmpas rôl y Prif Weithredwr yn achlysurol. Nod y disgrifiad swydd hwn yw darparu arweiniad ar yr amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r swydd, yn hytrach na chynnig diffiniad llawn a chyfyngedig ohoni. Mae'n bosibl y caiff ei newid a'i diwygio o bryd i'w gilydd.

